TDASTL23

# Cynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau addysgu a dysgu o dan gyfarwyddyd athro

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon?**
Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n cynllunio, cyflwyno a gwerthuso addysgu a dysgu gweithgareddau ar gyfer disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion o dan arweiniad neu gyfarwyddiadau'r athro.

**Am beth mae'r uned hon?**
Mae'r uned hon yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno gweithgareddau addysgu a dysgu i ategu, atgyfnerthu neu ymestyn addysgu a dysgu sydd wedi'u cynllunio a'u cyflwyno gan yr athro. Mae hefyd yn cynnwys monitro a rhoi adborth ar gyfranogiad a chynnydd disgyblion, a gwerthuso eich cyfraniad eich hun i'r gweithgaredd dysgu.

Bydd y gweithgareddau addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion unigol neu grwpiau bach o ddisgyblion ac yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r athro sy'n parhau i fod yn bennaf gyfrifol am y dosbarth cyfan. Gellir eu cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth neu unrhyw leoliad lle mae'r addysgu a'r dysgu'n digwydd fel astudiaethau maes, ymweliadau addysgol, oriau estynedig a threfniadau cymorth astudio. Bydd cynllunio, gweithredu a gwerthuso yn cwmpasu hefyd unrhyw waith partneriaeth gyda'r athro yn rhan o'r cynllun gwersi cyffredinol, er enghraifft wrth weithio gyda'r dosbarth cyfan mewn sesiwn lawn.

Dylai gweithgareddau addysgu a dysgu gael eu cynnal o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro cymwysedig yn unol â threfniadau a wnaed gan bennaeth yr ysgol.

**Mae'r uned hon yn cynnwys tair elfen:**

1. Cynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu o dan gyfarwyddyd athro
2. Cyflwyno gweithgareddau addysgu a dysgu
3. Gwerthuso gweithgareddau a deilliannau addysgu a dysgu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu o dan gyfarwyddyd athro**

P1 egluro a chadarnhau'r canlynol gyda'r athro:

P1.1 amcanion dysgu ac addysgu'r gweithgareddau

P1.2 eich rôl wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r gweithgareddau addysgu a dysgu a sut mae hyn yn ymwneud â'r hyn y bydd yr athro yn ei wneud

P1.3 y disgyblion y byddwch yn gweithio gyda nhw

P1.4 sut caiff llwyddiant ei fesur

P2 cyfrannu'n effeithiol at gynllunio unrhyw bartneriaeth sy'n gweithio gyda'r athro yn rhan o gynllun cyffredinol y wers

P3 cynllunio gweithgareddau i gyflawni'r amcanion addysgu a dysgu y cytunwyd arnynt ac anghenion dysgu personol y disgyblion dan sylw

P4 strwythuro gweithgareddau addysgu a dysgu er mwyn:

P4.1 cynnal cymhelliant a diddordeb y disgyblion

P4.2 rhoi adborth ar ddysgu a chynnydd y disgyblion

P5 dewis a pharatoi adnoddau addysgu a dysgu sy'n berthnasol i:

P5.1 anghenion a diddordebau'r disgyblion

P5.2 amcanion dysgu ac addysgu'r gweithgareddau

P5.3 amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol cymdeithas

**Cyflwyno gweithgareddau addysgu a dysgu**

P6 sefydlu a chynnal amgylchedd gwaith pwrpasol ar gyfer y gweithgareddau dysgu

P7 cyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif â disgyblion i gynorthwyo eu dysgu

P8 defnyddio dulliau addysgu a dysgu priodol: T8.1 ar gyfer y disgyblion a'r gweithgareddau dysgu

P8.2 cynnal cymhelliant a diddordeb y disgyblion

P8.3 cynorthwyo a herio disgyblion yn briodol

P8.4 casglu adborth ar ddysgu a chynnydd disgyblion

P9 hyrwyddo a chynorthwyo i gynnwys pob disgybl sy'n ymwneud â'r gweithgareddau dysgu

P10 monitro ymatebion y disgyblion i'r gweithgareddau addysgu a dysgu ac addasu gweithgareddau os oes angen gwneud hynny i hyrwyddo dysgu

P11 monitro sut mae disgbyblion yn cymryd rhan a'u cynnydd yn y gweithgareddau dysgu a rhoi cymorth adeiladol i ddisgyblion wrth iddynt ddysgu

P12 cyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt mewn modd dibynadwy i weithio mewn partneriaeth â'r athro
P13 rhoi adborth cywir a chyflawn i bobl berthnasol ar gyfranogiad a chynnydd disgyblion
P14 cynnal cofnodion priodol o'r gweithgareddau a'r deilliannau addysgu a dysgu yn unol â gweithdrefnau ysgol

**Gwerthuso gweithgareddau a deilliannau addysgu a dysgu**

P15 nodi a defnyddio tystiolaeth o'r gweithgareddau addysgu a dysgu i werthuso cynnydd disgyblion
P16 gwneud asesiad realistig o'r graddau y cyflawnwyd yr amcanion addysgu a dysgu a gynlluniwyd gan ystyried y dulliau y cytunwyd arnynt i fesur llwyddiant
P17 gofyn am adborth gan yr athro a'r disgyblion a'i ystyried
P18 nodi cryfderau a gwendidau'r gweithgareddau addysgu a dysgu mewn perthynas â'r canlynol:
P18.1 yr amcanion dysgu ac addysgu
P18.2 y dulliau mesur llwyddiant
P18.3 cyfranogiad a chynnydd y disgyblion
P18.4 yr adnoddau dysgu ac addysgu
P18.5 y dulliau addysgu a dysgu
P19 nodi materion ar gyfer gwella, a ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain
P20 cofnodi a defnyddio canlyniadau eich gwerthusiad i gynorthwyo datblygiad a gwella
P21 rhoi adborth i'r athro i lywio ei waith cynllunio yn y dyfodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 natur a ffiniau eich rôl wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau addysgu a dysgu, a'i pherthynas â rôl yr athro ac eraill yn yr ysgol
K2 pwysigrwydd disgwyl llawer gan ddisgyblion a sut mae hyn yn cael ei ddangos drwy eich arferion
K3 y cwricwlwm ysgol perthnasol a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran disgyblion yn y pwnc/maes cwricwlwm ac ystod oedran y disgyblion yr ydych yn gweithio gyda nhw
K4 amcanion addysgu a dysgu'r gweithgareddau dysgu a lle'r rhain yn rhaglen addysgu gyffredinol yr athro
K5 sut i ystyried profiadau, diddordebau, doniau a dewisiadau disgyblion wrth gynllunio dysgu personol
K6 y ffactorau allweddol sy'n gallu effeithio ar y ffordd y mae disgyblion yn dysgu gan gynnwys oedran, rhywedd a datblygiad corfforol, deallusol, ieithyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol, a sut i ystyried y rhain wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau dysgu
K7 sut mae trefniadaeth gymdeithasol a pherthnasoedd, fel grwpio disgyblion a'r ffordd y mae oedolion yn rhyngweithio â nhw ac yn ymateb iddynt, yn gallu effeithio ar ddysgu
K8 strategaethau casglu gwybodaeth am ddysgu a chynnydd disgyblion, a sut i gynllunio'r rhain a'u defnyddio mewn gweithgareddau addysgu a dysgu
K9 sut i ddewis a pharatoi adnoddau addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion y disgyblion dan sylw
K10 sut i sefydlu a chynnal amgylchedd dysgu pwrpasol a hyrwyddo ymddygiad da
K11 pwysigrwydd meithrin cysylltiad a pherthynas barchus, hyderus â disgyblion
K12 sut i ddewis a defnyddio dulliau addysgu a dysgu i gynorthwyo, cymell ac ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion yr ydych yn gweithio gyda nhw
K13 polisïau'r ysgol ar gyfer cynhwysiant a chyfle cyfartal a goblygiadau hyn ar gyfer sut rydych chi'n cynorthwyo gweithgareddau addysgu a dysgu
K14 sut i fonitro ymateb y disgyblion i weithgareddau addysgu a dysgu
K15 pryd a sut i addasu gweithgareddau addysgu a dysgu
K16 sut i fonitro a hyrwyddo sut mae disgbyblion yn cymryd rhan a'u cynnydd
K17 pwysigrwydd gweithio o fewn ffiniau eich rôl a'ch cymhwysedd a phryd y dylech gyfeirio at eraill
K18 sut i fyfyrio ar brofiad a dysgu ohono

## Geirfa